Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@ LlandrilloMenai

# Siarter Myfyrwyr

## Addysg Uwch



gllm.ac.uk/graddau

**Mae'r Siarter Myfyrwyr hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr AU GLLM, waeth ym mha goleg y bônt yn astudio na pha sefydliad AU sy'n dyfarnu'r cymhwyster.**

Mae'n ddatganiad o fwriad da sy'n disgrifio prif nodweddion y Cymunedau Dysgu mae'r Grŵp yn ceisio eu sefydlu. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a bydd yn cael ei adolygu'r flynyddol. (Adolygwyd ddiwethaf: Mehefin 2024)

Yn y siartr, nodir yr hyn a ddisgwyliwn gennych ac eglurir eich cyfrifoldebau a'ch hawliau. Mae hefyd yn amlinellu beth y gallwch ei ddisgwyl gan y coleg yr ydych yn astudio ynddo (Coleg Llandrillo, Coleg Menai neu Goleg Meirion-Dwyfor).

Mae GLLM yn cynnwys cymunedau dysgu a nodweddir gan barch at ein gilydd, a lle mae ein myfyrwyr yn rhannu cyfrifoldeb cyfartal am ddatblygu, cadw a chynnal cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel.

Gweithia Grŵp Llandrillo Menai mewn partneriaeth agos â'i fyfyrwyr AU, Llywydd AU Undeb y Myfyrwyr a staff ehangach y coleg er mwyn cefnogi a chryfhau profiadau ein dysgwyr AU. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n myfyrwyr, gan ddefnyddio dulliau effeithiol i gyfathrebu a lledaenu gwybodaeth.

Darpara GLlM gyfleoedd a chymorth i astudio'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnig yn ddwyieithog amrediad eang o raglenni AU, gwasanaethau, tiwtorialau, dulliau cyfathrebu ac asesiadau, yn unol â Deddf a Safonau'r Iaith Gymraeg.

## Y Gymuned AU

### Gallwch ddisgwyl i ni:

• eich parchu fel unigolyn;

• eich trin yn gyfartal, yn enwedig mewn perthynas â nodweddion a warchodir (oedran, rhywedd, anabledd, hil, crefydd neu gred, tueddiad rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil);

• darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau myfyrwyr drwy Undeb y Myfyrwyr, a gwasanaethau eraill i fyfyrwyr;

• darparu Llywydd AU etholedig ar gyfer Undeb y Myfyrwyr i'ch cefnogi chi a chymuned AU ehangach GLLM;

• darparu a hwyluso system i gynrychioli myfyrwyr, ynghyd â hyfforddiant addas i'r cynrychiolwyr hynny.

### Byddwn yn disgwyl i chi:

• barchu a thrin staff a chyd-fyfyrwyr yn gwrtais, a chynnal safonau ymddygiad uchel;

• hybu, helpu i greu a chynnal amgylchedd ac awyrgylch sy'n ffafriol i ddysgu, ac ar yr un pryd, annog trin pawb yn gyfartal;

• helpu i hyrwyddo cymuned AU drwy gymryd rhan mewn cyfleoedd cyfoethogi;

• cymryd rhan weithredol yn yr etholiad i ddewis Llywydd AU, ethol myfyriwr i gynrychioli'ch rhaglen AU chi a bod yn rhan o brosesau cyfathrebu cynrychiolwyr y myfyrwyr.representative

## Cyfathrebu

### Gallwch ddisgwyl i ni:

• ddarparu gwybodaeth glir mewn Polisi ynghylch Ffioedd Dysgu am ffioedd dysgu a bwrsarïau ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut a phryd y dylech dalu, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a darparu gwybodaeth am unrhyw gostau ychwanegol ar bob tudalen sy'n sôn am gyrsiau AU;

• darparu mynediad i reoliadau, polisïau a gweithdrefnau academaidd sy'n rhoi manylion ynghylch disgwyliadau GLLM a'r corff dyfarnu, ynghyd â chefnogaeth;

• darparu gwybodaeth a chymorth ar y polisi a gweithdrefnau cwyno, ac os ydych yn anfodlon ar ganlyniad y gweithdrefnau hyn o eiddo GLLM, darparu gwybodaeth ar sut a phryd y dylid cysylltu â'r corff neu'r sefydliad dyfarnu, ac os oes angen wedi hynny, â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol;

• galluogi myfyrwyr i gael unrhyw un o wasanaethau GLlM drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac i gael tiwtor personol sy'n gallu rhoi cefnogaeth iddynt yn yr iaith o'u dewis (lle bo'n bosibl);

• darparu gwybodaeth glir am eich rhaglen, yn cynnwys Llawlyfr Rhaglen ar-lein sy'n cynnwys manylion am strwythur eich cwrs, y staff, cynnwys, manylion y modiwlau, dulliau cyflwyno a dulliau asesu;

• gweithio mewn partneriaeth er mwyn dal ati i wella'ch cwrs, y coleg a'r gwasanaethau, gan ddarparu amrediad o gyfleoedd i fyfyrwyr roi adborth, yn cynnwys drwy system gynrychiolwyr strwythuredig.

### Byddwn yn disgwyl i chi:

• roi sylwadau adeiladol a gwerthuso'ch rhaglen, eich coleg a'r gwasanaethau fel y bo angen. Er enghraifft, gall hyn fod:
• yn drafodaethau parhaus gyda chynrychiolydd eich dosbarth, a chyda'ch tiwtoriaid

• drwy brosesau ffurfiol fel mynychu cyfarfodydd adolygu cwrs a chwblhau gwerthusiadau modiwlau a chwrs (yn cynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr sy'n cymharu'n darpariaeth â gweddill y wlad yn ystod eich blwyddyn astudio olaf)

• Rhoi i gynrychiolydd eich dosbarth a/neu i Lywydd AU Undeb y Myfyrwyr adborth i'w gyflwyno pan fyddant yn mynd i baneli'r myfyrwyr AU

• ceisio datrys unrhyw gwynion a allai fod gennych drwy siarad yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r unigolion sydd dan sylw i ddechrau, ac yna ag Arweinydd eich Rhaglen neu'ch Tiwtor Personol;

• rhoi gwybod i Arweinydd y Rhaglen, y Tiwtor Personol a/neu Diwtor y Modiwl am unrhyw anawsterau yr ydych yn eu cael gyda'ch astudiaethau e.e. salwch, problemau dysgu ac ati;

• gofyn am gyngor yn syth os yw'ch cynnydd academaidd yn peri pryder i chi neu'r staff sy'n eich addysgu;

• gofyn am gyngor yn syth os yw'ch cynnydd academaidd yn peri pryder i chi neu'r staff sy'n eich addysgu;

• Os ydych am bledio amgylchiadau sy'n lleihau eich bai neu amgylchiadau lliniarol, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y Ffurflen Amgylchiadau sy'n Lleihau Bai yn cael ei chwblhau'n gywir a'i chyflwyno cyn y dyddiad cau, un ai drwy Arweinydd eich Rhaglen neu'ch Tiwtor Personol (yn unol â rheoliadau'r Sefydliad AU sy'n dyfarnu'r cymhwyster yr ydych yn astudio tuag ato).

## Datganiad ynghylch Gwarchod Buddiannau Myfyrwyr

Bydd GLIM yn cefnogi'r myfyrwyr drwy warchod eu buddiannau mewn amgylchiadau fel newidiadau sylweddol i gwrs, e.e. newid corff dyfarnu, neu ddiddymu cwrs.

Bydd y myfyrwyr yn cael cymorth i ddeall eu hawliau o ran parhau hyd ddiwedd y cwrs a ddilyswyd yn wreiddiol, neu i drosglwyddo i gwrs arall.

## Dysgu, Addysgu ac Asesu

### Gallwch ddisgwyl i ni:

- ddarparu cyfleoedd i chi ddysgu'r Gymraeg neu i wella'ch sgiliau Cymraeg mewn dosbarthiadau, neu drwy raglenni AU dwyieithog penodol, yn cynnwys cyfleoedd i gyflwyno asesiadau a chael adborth (lle bo'n bosibl) drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'r hyn a ategir yn Safonau'r Gymraeg a chan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- darparu adnoddau astudio a dysgu addas i chi ar gyfer eich rhaglen;
- darparu mynediad i chi i gymorth academaidd addas;
- rhoi gwybodaeth i chi am sut i baratoi a chyflwyno gwaith eich aseiniad;
- rhoi dyddiadau clir ar gyfer cyflwyno gwaith, a sut y caiff aseiniadau eu gwasgaru;
- rhoi adborth i chi ar eich cynnydd a'ch cyflawniadau ar adegau y cytunwyd arnynt, asesu gwaith yn deg a'i ddychwelyd o fewn amser penodol.

### Byddwn yn disgwyl i chi:

- fodloni gofynion y cwrs o ran mynychu sesiynau sydd ar yr amserlen, cyflawni'r gwaith a osodir, rhoi gwybod i diwtoriaid pam eich bod yn absennol;
- cymryd rhan weithredol yn eich astudiaethau drwy ymgysylltu â'ch cyd-fyfyrwyr a'ch tiwtoriaid ynghylch pob agwedd ar eich cwrs, yn cynnwys yr addysgu, yr asesu a'r gwerthuso;
- manteisio ar wahanol ddulliau dysgu, addysgu ac asesu a bod yn gyfrifol, ar y cyd â'ch tiwtoriaid, am ddatblygu'ch sgiliau, eich gwybodaeth a'ch galluoedd;
- os oes angen, ceisio eglurhad am feini prawf asesu a sut maent yn berthnasol i bob modiwl;
- cyfeirnodi'ch gwaith yn llawn a phriodol gan ddefnyddio'r dull academaidd y cytunwyd arno;
- cyflwyno gwaith i'w asesu ar amser, gan gadw at y fformatau a'r arddulliau a nodwyd ym mriffiau'r aseiniadau, a sicrhau nad ydych yn dilyn unrhyw arferion annheg;
- cadw at reoliadau'r Grŵp.

## Datganiad ynghylch Iechyd a lles

Mae GLIM wedi ymrwymo i hybu lles ac iechyd y myfyrwyr, yn cynnwys eu hiechyd meddwl, ac i hyrwyddo dulliau atal hunanladdiad. Mae gan GLIM amrywiaeth o bolisïau, yn cynnwys Strategaeth Lles Staff a Dysgwyr sydd wedi hen ennill ei blwyf, er mwyn hyrwyddo ffyrdd o fyw a dewisiadau iach a darparu strategaethau ymyrryd i'w defnyddio pan ganfyddir risgiau posibl.

Darperir rhagor o wybodaeth i fyfyrwyr ar ôl cofrestru ar borth y dysgwyr (eDrac Dysgwyr) ac yn ystod y cyfnod cynefino a drwy'r rhaglen gyfoethogi. Mae hyn yn cynnwys medru defnyddio Hwb Iechyd a Lles i Fyfyrwyr sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth GLIM, gweithgareddau a manylion asiantaethau trydydd sector.

## Taith y Dysgwr a'r Gefnogaeth sydd ar gael

### Gallwch ddisgwyl i ni:

- ddarparu gwybodaeth glir am y gwasanaeth cymorth sydd ar gael (gan GLIM ac asiantaethau trydydd sector) i sicrhau bod dysgwyr yn medru cael gwybodaeth a gwasanaethau sy'n rhoi cefnogaeth bersonol ac academaidd;
- darparu Strategaeth Lles Staff a Dysgwyr ynghylch lles, iechyd ac iechyd meddwl;
- darparu amgylchedd diogel, cyfeillgar a chynhwysol o ran diogelu;
- diogelu'r holl wybodaeth bersonol a ddarperir gennych, gan gydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch, diogelu a chyfrifoldebau o ran diogelu a rheoli data'n gyffredinol;
- neilltuo ar eich cyfer diwtor personol a fydd yn darparu cefnogaeth fugeiliol, yn ogystal ag arweiniad academaidd;
- eich cefnogi yn eich astudiaethau ac wrth fynd ati i bennu targedau, a gyda'ch datblygiad personol;
- darparu gwasanaeth sy'n eich cefnogi a'ch paratoi i wneud dewisiadau sy'n cyfateb i'ch amcanion gyrfaol;
- darparu rhaglenni sy'n datblygu gwybodaeth a sgiliau a fydd yn eich helpu i lwyddo yn eich gyrfa ddewisedig;
- eich cynorthwyo i ddeall y sgiliau cyflogadwyedd yr ydych wedi eu meithrin yn ystod eich cwrs.

### Byddwn yn disgwyl i chi:

- gymryd sylw o'r wybodaeth a gewch er mwyn i chi fod yn llwyr ymwybodol o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i chi;
- rhoi gwybod i ni'n ddiymdroi am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol (bydd hyn yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhyngoch chi a'r coleg a bod eich enw a'ch manylion yn gywir ar y dystysgrif a ddyfernir i chi);
- deall y rhan sydd gennych chi i'w chwarae yn y broses o greu amgylchedd diogel, cyfeillgar a ffafriol i ddysgu;
- mynd ati i geisio adnoddau penodol a phriodol i ategu'ch dysgu;
- ystyried yn ofalus y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael i chi er mwyn cael y cyfle gorau posibl i gyflawni'ch dyheadau ar gyfer y dyfodol;
- defnyddio'r gwasanaethau gyrfaol sydd ar gael i chi;
- cydnabod y sgiliau cyflogadwyedd yr ydych yn eu meithrin yn ystod eich cwrs;

## Cysylltiadau

Mae pob dolen yn y Siarter yn mynd â chi i wybodaeth ychwanegol fel polisiau, cysylltiadau neu wybodaeth fanylach. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y Siarter, cysylltwch â:

E-bost Undeb y Myfyrwyr: studentunion@gllm.ac.uk

Llywydd Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr: HESUPresident@gllm.ac.uk